

National Networks National Policy Statement Consultation,  
Department of Transport,  
Zone 3/23, Great Minster House,  
33 Horseferry Road,  
Llundain SW1P 4DR

20 Chwefror 2014

E-bost: [jill.caughey@dtf.gti.gov.uk](mailto:jill.caughey@dtf.gti.gov.uk)

Annwyl Ms Caughey,

## **YMGYNGHORIAD AR DDATGANIAD POLISI CENEDLAETHOL DRAFFT AR GYFER RHWYDWEITHIAU FFYRDD A RHEILFFYRDD PRYDAIN - RHAGFYR 2013**

Diolch am roi cyfle i Cyfoeth Naturiol Cymru ymateb i Asesiad Cynaliadwyedd ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd y Datganiad Polisi Cenedlaethol ar Rwydweithiau Prydain.

Cafodd Cyfoeth Naturiol Cymru ei sefydlu ar 1 Ebrill 2013, gan gyfuno gwaith Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru yn ogystal â rhai o swyddogaethau Llywodraeth Cymru. Ein nod yw sicrhau bod adnoddau naturiol Cymru yn cael eu cynnal, eu gwella a'u defnyddio'n gynaliadwy, nawr ac yn y dyfodol.

Byddwn yn ymroi i gynnal a gwella ansawdd yr amgylchedd i bawb. Byddwn yn mynd ati i sicrhau bod yr amgylchedd a'r adnoddau naturiol yn fwy gwydn ac yn gallu dygymod â newid yn yr hinsawdd a mathau eraill o bwysau.

Rydym wedi nodi'n sylwadau o dan eich cwestiynau isod. Yn gyffredinol, rydym yn cefnogi'r ffaith fod y Datganiad Polisi Cenedlaethol yn cynnwys yr angen i fynd i'r afael â'r effeithiau trawsffiniol posibl ar Gymru. Isod, rydym yn nodi'r ychydig feysydd hynny lle mae angen cryfhau'r testun yn ein barn ni.

### **C1. Ydy'r Datganiad Polisi Cenedlaethol drafft hwn yn nodi'r angen i ddatblygu rhwydweithiau cenedlaethol? Os na, pam felly? (gweler Pennod 2 y Datganiad Polisi Cenedlaethol ar Rwydweithiau Cenedlaethol).**

Nid oes gennym unrhyw sylwadau ar y cwestiwn hwn.

### **C2. Ydy'r Datganiad Polisi Cenedlaethol drafft yn esbonio polisi'r Llywodraeth ar gyfer mynd i'r afael â'r angen a nodwyd yn y Datganiad? Os na, pam felly? (gweler Penodau 2 a 3 y Datganiad Polisi Cenedlaethol ar Rwydweithiau Cenedlaethol).**

Nid oes gennym unrhyw sylwadau ar y cwestiwn hwn.

### **C3. Ydy'r Egwyddorion Asesu yn darparu canllawiau digonol i'r Ysgrifennydd Gwladol ar y ffordd y dylai asesu ceisiadau ar gyfer datblygu'r rhwydweithiau cenedlaethol? Os na, pam felly? (gweler Pennod 4 y Datganiad Polisi Cenedlaethol ar Rwydweithiau Cenedlaethol).**

**Paragraff 4.18:** Rydym yn croesawu'r cyfeiriad at yr angen i'r ceisydd ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru mewn perthynas ag Asesu Rheoliadau Cynefinoedd a'r effeithiau trawsffiniol.

**C4. Ydy'r Datganiad Polisi Cenedlaethol drafft yn rhoi arweiniad priodol i hyrwyddwyr y cynllun? Os na, pam felly? (gweler Pennod 5 y Datganiad Polisi Cenedlaethol ar Rwydweithiau Cenedlaethol).**

**Paragraff 5.1:** Rydym yn sylwi bod Adran 5 yn trafod sut ddylai hyrwyddwyr y cynllun ymdrin â phynciau penodol, gan gynnwys materion amgylcheddol. Croesawn yr angen i hyrwyddwyr y cynllun weithio gyda'r gweinyddiaethau datganoledig lle gallai fod effeithiau trawsffiniol.

**Paragraff 5.15:** Eto, rydym yn croesawu'r angen am asesiad o'r effaith amgylchedd er mwyn ystyried yr effeithiau ar safleoedd ecolegol a daearegol a all fod y tu allan i Loegr.

**Paragraff 5.65:** Cyfeiriwn at y testun sy'n rhoi cyfarwyddyd i'r ceisydd gysylltu â'r Sefydliad Rheoli Morol (MMO) yn achos prosiectau sy'n cynnwys carthu neu waredu i'r môr, neu a allai effeithio ar newid arfordirol. Yng Nghymru, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithredu ar ran yr awdurdod trwyddedu (Gweinidogion Cymru) mewn perthynas â'r gweithgareddau sydd dan ofal MMO yn Lloegr. Pe bai datblygiad arfaethedig yn cael effeithiau trawsffiniol ar Gymru, ac y byddai angen trwydded forol ar gyfer hyn, yna byddai angen cael caniatâd gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Felly, rydym yn cynghori y dylid newid y geiriad i adlewyrchu hyn.

**Paragraff 5.67:** Cyfeiriwn at y testun sy'n rhoi cyfarwyddyd i'r ceisydd i gysylltu â Natural England yn achos prosiectau sy'n effeithio ar ardaloedd morol gwarchoddedig. Mewn perthynas â'r effeithiau posibl ar ardaloedd morol gwarchoddedig yng Nghymru, dylid cysylltu â Cyfoeth Naturiol Cymru. Rydym yn eich cynghori i newid y testun i adlewyrchu hyn.

**Paragraff 5.72:** Rydym yn eich cynghori i ychwanegu enw Cyfoeth Naturiol Cymru at restr yr ymgynghoreion i ymgynghori â nhw parthed mesurau lleihau'r effeithiau ar arfordir Cymru.

**Paragraff 5.87:** Croesawn y cyfeiriad at y ffordd y dylai ceisydd ystyried y peryglon llifogydd posibl a all ddeillio o brosiect, gan gynnwys mewn rhannau cyfagos o'r DU.

**Paragraff 5.115:** Cyfeiriwn at gynnwys gofynnol asesiad o effaith amgylcheddol y ceisydd. Ein cyngor yw, os yw'r datblygiad arfaethedig yn agos at dirwedd hanesyddol yng Nghymru, fel y nodir yn y Gofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru (er enghraifft rhan isaf Dyffryn Gwy, sydd ar ffin Cymru a Lloegr), yna efallai y bydd angen i asesiad o'r effaith weledol gynnwys asesiad o effaith sylweddol y datblygiad ar dirweddau hanesyddol.

**C5. Ydy'r Datganiad Polisi Cenedlaethol drafft yn ystyried holl effeithiau sylweddol posibl datblygiad rhwydwaith cenedlaethol? Os na, pa effeithiau eraill y dylid eu cynnwys a pham? (gweler Penodau 4 a 5 y Datganiad Polisi Cenedlaethol ar Rwydweithiau Cenedlaethol).**

Gall datblygiadau yn y dyfodol wedi'u llywio gan y Datganiad Polisi Cenedlaethol effeithio ar Gymru. Pan fydd datblygiad yn Lloegr, a allai effeithio ar Gymru, yn cael ei gynllunio, bydd angen rhoi ystyriaeth benodol i bolisi a chanllawiau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys Polisi Cynllunio Cymru, Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru, cynigion drafft Llywodraeth Cymru ar gyfer coridor yr M4 a'r Bil Cynllunio (Cymru) drafft. Mae'r Bil arfaethedig yn cynnwys cyflwyno darpariaethau ar gyfer rhywfaint o gynllunio ar raddfa ranbarthol, gan gynnwys coridor yr A55. Mae hefyd yn cynnwys gofyniad statudol i Weinidogion Cymru baratoi a diweddarau cynllun defnydd tir cenedlaethol o'r enw'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. Bydd y Fframwaith arfaethedig yn cyflwyno blaenoriaethau defnydd tir Llywodraeth Cymru trwy nodi lleoliadau allweddol ar gyfer buddsoddiad seilwaith. Fe'ch cynghorwn felly i gofio am y cynigion

hyn. Yn achos unrhyw seilwaith yn y dyfodol a allai effeithio ar Gymru, dylid ystyried deddfwriaeth a pholisi'r presennol a'r dyfodol a datblygiad seilwaith Cymru.

## **C6. Ydy'r Datganiad Polisi Cenedlaethol drafft yn cynnwys canllawiau priodol ar fesurau lliniaru priodol? Os na, pam felly? (gweler Pennod 5 y Datganiad Polisi Cenedlaethol ar Rwydweithiau Cenedlaethol).**

Nid oes gennym unrhyw sylwadau ar y cwestiwn hwn.

## **Arfarniad o Gynaliadwyedd**

### **C7. Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar Arfarniad o Gynaliadwyedd y Datganiad Polisi Cenedlaethol ar Rwydweithiau Cenedlaethol?**

Rydym yn gwneud sylwadau yng nghyd-destun ein cyfrifoldebau dan Reoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (2004).

#### Adran 7 Rhagfynegi a gwerthuso effeithiau'r Datganiad Polisi Cenedlaethol a pholisiau amgen

**Paragraff 7.3 - Tablau cryno AoS 1- AoS23 y Datganiad Polisi Cenedlaethol:** Rydym yn cytuno gyda chasgliadau'r asesiad ac yn nodi'r potensial am fân effeithiau negyddol mewn perthynas ag AoS 4 (tirwedd), AoS 5 (treftadaeth), AoS 6 (bioamrywiaeth) ac AoS 7 (adnoddau dŵr) ar gyfer yr opsiwn a ffefir a dewis amgen 1. Byddai angen i asesiadau o'r effaith amgylcheddol roi ystyriaeth bellach i'r pynciau hyn ac unrhyw gynlluniau arfaethedig sy'n agos at ffin Cymru.

**Paragraff 7.8.1:** Croesawn y gydnabyddiaeth i'r effeithiau posibl ar Gymru yn sgil gweithredu'r Datganiad Polisi Cenedlaethol hwn yn Lloegr. Rydym yn cydnabod ei bod hi'n anodd asesu hyn yn fanwl oherwydd natur strategol y Datganiad Polisi Cenedlaethol.

#### Adran 8.0 Sut mae'r broses Arfarniad o Gynaliadwyedd wedi llywio datblygiad y Datganiad.

Croesawn y mesurau lliniaru a'r newidiadau a gafodd eu cynnwys yn y Datganiad Polisi Cenedlaethol yn sgil yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Yn benodol rydym yn cefnogi'r ymrwymiad i gynnwys mesurau gwella ym meysydd treftadaeth, tirwedd a bioamrywiaeth.

#### Adran 12 Cyfyngiadau a rhagdybiaethau

Rydym yn cydnabod yr anawsterau o ran nodi a gweithredu mesurau lliniaru o gofio'r diffyg gwybodaeth ofodol ac yn croesawu'r dull rhagofalus a fabwysiadwyd yn y Datganiad Polisi Cenedlaethol. Fel y nodwyd yn adran 7.8.1, gall rhai o'r effeithiau posibl a nodwyd ddigwydd yng Nghymru, naill ai o ganlyniad i effeithiau uniongyrchol/anuniongyrchol ar dreftadaeth, tirwedd a bioamrywiaeth, neu drwy'r effeithiau synergeddol ar rwydweithiau trafndiaeth yng Nghymru yn sgil newidiadau yn Lloegr. Rydym yn croesawu'r gydnabyddiaeth glir yn y Datganiad Polisi Cenedlaethol yr ymgynghorir â Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru ynglŷn â phob gwaith ymyrryd lle ceir posibilrwydd o effeithiau trawsffiniol. Byddai'n fanteisiol ategu'r datganiad hwn yn yr adran monitro a lliniaru.

Rydym hefyd yn croesawu'r ymrwymiad i ystyried a mynd i'r afael ag unrhyw effeithiau amgylcheddol sylweddol ar lefel prosiect.

## **Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd**

## **C8. Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar Aseiad Priodol y Datganiad Polisi Cenedlaethol drafft?**

Rydym yn gwneud ein sylwadau ar yr Aseiad Rheoliadau Cynefinoedd yng nghyd-destun ein cyfrifoldebau o dan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y'u diwygiwyd).

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn croesawu'r Aseiad Rheoliadau Cynefinoedd ar gyfer y Rhwydwaith Ffyrdd a Rheilffyrdd Cenedlaethol. Er bod yr aseiad hwn wedi'i gyfyngu'n benodol i Lloegr, rydym yn cytuno gyda'r nodweddion cynefinoedd a rhywogaethau a nodwyd fel rhai y gallai cynlluniau ffyrdd a rheilffyrdd posibl effeithio arnynt. O gofio'r potensial i'r effeithiau ymestyn cryn bellter y tu hwnt i ffiniau cynlluniau, yn enwedig o ran nodweddion rhywogaethau symudol, byddai'n fanteisiol cynnwys safleoedd yng Nghymru, yn enwedig rhai sy'n agos at ffin Lloegr, yn yr aseiad cyfanrwydd hefyd. Fodd bynnag, o gofio maint y Datganiad Polisi Cenedlaethol a'r diffyg gwybodaeth ofodol, rydym yn gwerthfawrogi'r ffaith na ddylai hyn danseilio'r aseiad yn sylweddol, cyn belled â'i fod yn nodi'n glir y dylai'r mesurau lliniaru cyffredinol gael eu cyflwyno yng Nghymru hefyd, ac y bydd angen ymgynghori â Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru ar bob ymyriad perthnasol.

**3.4 Am resymau hanfodol sef er budd cyhoeddus tra phwysig (IROPI):** Nodwn y dadleuon a gyflwynwyd ynglŷn â'r ffaith fod y Datganiad Polisi Cenedlaethol ar y Rhwydwaith Ffyrdd a Rheilffyrdd Cenedlaethol yn bodloni meini prawf 'IROPI'. Rydym yn derbyn eu bod yn cyd-fynd â'r dadleuon a wnaed ac a gytunwyd ar gyfer Datganiadau Polisi Cenedlaethol tebyg. Rydym hefyd yn nodi nad yw'n osgoi'r angen i gynnal Aseidiadau Rheoli Cynefinoedd ar lefel prosiect neu'r angen iddynt bennu a oes dulliau amgen ar gael ac y gellir cynnal achos IROPI (fel y manylir yn adran 5.0).

### **Cyffredinol**

## **C9. Rhowch unrhyw sylwadau pellach ynghylch unrhyw agwedd ar yr ymgynghoriad hwn.**

Nid oes gennym sylwadau pellach.

Yn gywir,

Pennaeth Cymunedau Cynaliadwy